

## CABINET

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 20 Chwefror, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cyngorwyr B.E. Brooks, R.M. Birch, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

### **C257 CYHOEDDIAD –**

Dechreuodd yr Arweinydd drwy roi gwybod am rai materion cadw tŷ a dywedodd fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ei recordio ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

### **C258 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –**

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S.D. Perkes.

### **C259 COFNODION –**

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2025 fel cofnod cywir.

### **C260 DATGANIADAU BUDDIANT –**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### **C261 ARCHWILIO CYMRU: ADOLYGIAD O GYNALIADWYEDD ARIANNOL CYNGOR BRO MORGANNWG GORFFENNAF 2024 (CYF) –**

Cyflwynwyd y geirda gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 6 Ionawr, 2025.

Cafwyd trafodaeth fanwl ar y mater yn y cyfarfod, gyda sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu cyfeirio at y Cabinet o dan Argymhelliad (2) y Pwyllgor. Roedd gwelliannau yn ymwneud â phroses y gyllideb yn fater a oedd eisoes wedi'i ddwyn ymlaen i'w ystyried. Dywedodd yr Arweinydd fod angen eglurhad pellach ynglŷn â gwybodaeth ynghylch pam fod penderfyniadau cyllidebol yn cael eu gwneud pan oedd beirniadaeth wedi bod yn flaenorol am nifer yr adroddiadau cyllideb a baratowyd yn flaenorol ond roedd yn gwerthfawrogi bod Cyngorwyr eisiau cymryd mwy o ran yn y broses.

Roedd sylw terfynol y Pwyllgor yn ymwneud â'r angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau beiddgar ar ba wasanaethau y gallai eu fforddio ac i gael deialog gyda'r cyhoedd ar gynlluniau a chyllidebau'r Cyngor. Dywedodd yr Arweinydd fod yna bethau yr oedd y Cyngor yn gallu eu gwneud ac nad oedd yn gallu eu gwneud yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Wrth symud ymlaen gyda'r Cynllun Corfforaethol newydd, byddai cyfleoedd ar gyfer mwy o ddeialog ar faterion cyllidebol.

PENDERFYNWYD – Nodi sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 6 Ionawr, 2025.

### Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod.

## **C262           ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION CORFFORAETHOL 2023/24 (CYF) –**

Cyflwynwyd y geirda gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 6 Ionawr, 2025.

Dywedodd yr Arweinydd y bu trafodaeth ddiddorol ar y mater yn y cyfarfod ynghylch cwynion a chanmoliaeth. Roedd gwybodaeth ar gyfer 2023/24 wedi dangos cynnydd yn y cwynion a dderbyniwyd ond gydag ymchwiliad pellach, nodwyd y gallai'r rhain fod yn gysylltiedig â sut roedd cwynion yn cael eu cofnodi. Er enghraifft, roedd hysbysiad am gasgliad biniau a fethwyd yn adrodd am fater gyda chyfle i unioni'r mater hwnnw, yn hytrach na chwyn. Fel enghraifft o hyn, cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at wybodaeth Cam 1 fesul Maes Gwasanaeth am ei gyfrifoldeb Portffolio o fewn Rheoli Gwastraff lle'r oedd niferoedd Cam 1 yn uchel ond wedi'u hunioni erbyn Cam 2 gan eu bod yn hawdd eu datrys ar ôl i'r mater gael ei godi a staff ar lawr gwlad wedi cael cyfle i ymdrin â'r materion a godwyd, ymholiadau yn hytrach na chwynion oedd y rhain.

Dywedodd yr Arweinydd fod materion yn cael eu codi'n aml ar ôl cyfnod y Nadolig oherwydd faint o wastraff oedd yn rhaid ei gasglu ond yn aml roedd y mater a godwyd yn fwy i dawelu meddwl pryd y byddai gwastraff yn cael ei gasglu, yn hytrach na chwyn nad oedd wedi'i gasglu. Dywedodd yr Arweinydd ymhellach, yn dilyn ymlaen o'r adroddiad, y byddai'n fuddiol cael adolygiad o'r Broses Gwyno a Chanmoliaeth er mwyn deall a oedd materion yn cael eu codi fel materion neu gwynion. Roedd gwaith ar y gweill o ran digideiddio systemau i allu darparu gwell gwasanaeth i drigolion hefyd.

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 6 Ionawr, 2025.

(2) Bod adolygiad o'r Broses Gwyno a Chanmoliaeth yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Cabinet maes o law i'w ystyried ymhellach.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) Gan ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C263            DIWEDDARIAD CH2: RHAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU  
2024 – CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –**

Cyflwynwyd y geirda gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 6 Ionawr, 2025.

Roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi adolygu'r wybodaeth yn yr adroddiad, wedi nodi'r cynnydd ac wedi cyfeirio'r adroddiad i'r Cabinet i'w oruchwylio.

PENDERFYNWYD – Nodi sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 6 Ionawr, 2025.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C264            ADRODDIAD CRYNO CANOL BLWYDDYN DIOGELU  
CORFFORAETHOL – TACHWEDD 2024 (CYF) –**

Cyflwynwyd y geirda gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 6 Ionawr, 2025.

Dywedodd y Cynghorydd Birch y bu trafodaeth drylwyr gan y Pwyllgor ar yr hyfforddiant diogelu i lywodraethwyr ysgol y teimlai'r Pwyllgor y dylai fod yn orfodol i bob llywodraethwr ysgol. Roedd y Cynghorydd Birch hefyd yn gobeithio y byddai'r holl Gynghorwyr yn dilyn yr hyfforddiant wrth i'r Aelodau gwrdd â phobl agored i niwed yn ystod eu rolau. Teimlai'r Pwyllgor y dylai pob llywodraethwr ysgol ddilyn yr hyfforddiant er mwyn bod yn gwbl ymwybodol o fecanweithiau adrodd a chymau i'w cymryd yn sgil datgeliadau plant.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod hyfforddiant o'r fath yn nodwedd bwysig o gyfrifoldeb Cynghorwyr a bod yr Aelodau hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn y Bwrdd Diogelu.

Dywedodd yr Arweinydd bod angen i bobl sy'n gweithio o fewn gwasanaethau cyhoeddus fod yn ymwybodol o faterion o'r fath fel rhan o'u cyfrifoldebau er mwyn darparu cefnogaeth i bobl heb roi unigolion mewn perygl. Gofynnodd y Cynghorydd Burnett hefyd am gael ei ddiweddarau fel rhan o adroddiad diogelu yn y dyfodol ynghylch y niferoedd oedd wedi dilyn yr hyfforddiant.

PENDERFYNWYD – Nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 6 Ionawr, 2025.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C265 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –**

Cyflwynwyd y geirda gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 14 Ionawr, 2025.

O ran argymhellion y Pwyllgor, dywedodd yr Arweinydd fod sawl un i'r Cabinet eu nodi gan eu bod wedi'u nodi gan y Pwyllgor eu hunain neu eu bod yn gyfrifoldebau Pwyllgor.

Roedd argymhelliad (4) gan y Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth gan y Cabinet am y blaenoriaethau strategol a'r adnoddau i'w canolbwyntio mewn perthynas â'r cyllid sydd ar gael mewn cronfeydd wrth gefn a phrosiectau y dyfarnwyd cyllid iddynt hyd yn hyn, a dywedodd yr Arweinydd eu bod yn rhan o'r Cynllun Corfforaethol a Chynlluniau Gwasanaeth wrth symud ymlaen.

Argymhellodd argymhelliad (8) i'r Cabinet fod yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu i'r holl Aelodau etholedig, aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth. Nid oedd yr Arweinydd yn gwybod a fyddai'r Pwyllgor eu hunain wedi gweithredu ar y mater hwnnw gan y byddai hynny o fewn rheolaeth y Pwyllgor ei hun. Byddai'r holl Aelodau etholedig wedi cael gwybod am agendâu cyfarfodydd perthnasol pan gyhoeddwyd papurau felly byddent eisoes wedi gweld y papurau a gofyn am eglurhad ynghylch a oedd y wybodaeth eisoes wedi'i hanfon at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD –**

(1) Nodi sylwadau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 14eg Ionawr, 2025.

(2) Bod yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth iddynt os nad oedd eisoes wedi'i ddsbarthu.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) Gan ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C266 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –**

Cyflwynwyd y geirda gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Ionawr, 2025.

Dywedodd yr Arweinydd y bu sgysiau ynglŷn â chaffael a'r rhan bwysig y gallai ei chwarae wrth ystyried Project Zero a bod Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi cymryd rhan mewn sgysiau ynghylch y Cynllun Rheoli Carbon.

Cyfeiriodd argymhelliad (7) gan y Pwyllgor sylwadau'r Pwyllgor at y Cabinet. Gofynnodd y Pwyllgor i unrhyw adroddiadau Cynllun Rheoli Carbon a Phrosiect Dim yn y dyfodol gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ochr yn ochr â'i gilydd a bod trafodaeth yn cael ei chynnal yn y dyfodol gydag Aelodau'r Pwyllgor ar sut i gyflwyno cynnydd yn erbyn targedau a oedd yn fater i'r Pwyllgor. Roedd y materion yn ymwneud â statws RAG, cynlluniau Rheoli Llifogydd a materion dŵr wyneb hefyd yn faterion i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd eu codi gyda Chadeirydd y Pwyllgor.

Yn yr un modd â'r mater ym Mhwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio, Argymhelliad (8) a oedd yn argymhell i'r Cabinet fod yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu i'r holl Aelodau etholedig, aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth. Nid oedd yr Arweinydd yn gwybod a fyddai'r Pwyllgor eu hunain wedi gweithredu ar y mater hwnnw gan y byddai hynny o fewn rheolaeth y Pwyllgor ei hun. Byddai'r holl Aelodau etholedig wedi cael gwybod am agendâu'r cyfarfodydd perthnasol pan gyhoeddwyd y papurau, felly byddent eisoes wedi gweld y papurau a gofyn am eglurhad ynghylch a oedd y wybodaeth eisoes wedi'i hanfon at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned.

#### PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Ionawr, 2025.
- (2) Bod materion a godwyd yn sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd i'w codi gyda Chadeirydd y Pwyllgor fel materion ar gyfer rhaglen waith ei Bwyllgor ei hun.
- (3) Bod yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth pe na bai wedi'i ddsbarthu eisoes.

#### Rheswm dros y penderfyniadau

- (1-3) Gan ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod.

#### **C267 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/BA) (CRAFFU – PAWB) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i hysbysu'r Cabinet bod y Prif Weithredwr wedi arfer Pwerau Argyfwng ers yr adroddiad diwethaf ar 05 Rhagfyr, 2024. Dywedodd y Cynghorydd Williams fod yn rhaid i lawer o'r materion yn yr adroddiad fod yn eu lle i gwrdd ag amserlenni penodol o ran cyllid grant gyda llawer iawn o waith yn cael ei wneud gan Swyddogion ar faterion oedd yn aml angen gweithredu ar unwaith.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng y Prif Weithredwr.

Rheswm dros y penderfyniad

I hysbysu'r Cabinet.

**C268            AMSERLEN CYFARFODYDD: MAI 2025 I MAI 2026 (AG/BA)  
(CRAFFU – DIM PWYLLGOR CRAFFU PERTHNASOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i ystyried amserlen ddrafft o gyfarfodydd ar gyfer y cyfnod Mai 2025 i Mai 2026.

Dywedodd y Cynghorydd Burnett efallai y bydd angen gwneud rhai newidiadau i'r amserlen o ganlyniad i ystyriaethau mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol newydd ynghylch Pwyllgorau Craffu er mwyn diwallu anghenion cyflawni'r Cynllun Corfforaethol newydd yn y ffordd orau ac felly byddai'n cael ei ddiwygio yn amodol ar unrhyw newidiadau yn y dyfodol a hefyd yn y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd a ystyrir yn briodol gan Faer y Cyngor neu'r Pwyllgor/Cadeirydd Cyfarfod perthnasol.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo amserlen y cyfarfodydd ar gyfer Mai 2025 - Mai 2026, fel y nodir yn Atodiad A i'r Adroddiad, yn amodol ar unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd a ystyrir yn briodol gan Faer y Cyngor neu Gadeirydd y Pwyllgor/Cyfarfod perthnasol.

Rheswm dros y penderfyniad

Cymeradwyo / cyhoeddi calendr o gyfarfodydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025/26.

**C269            ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG/CYS 2023-2024 (CYNGOR  
YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL) / CYS (CYNGOR  
YMGYNGHOROL SEFYDLOG) (ACG) (CRAFFU – PAWB) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i gadarnhau Adroddiad Blynyddol 23-24 ar gyfer CYSAG (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol) / CYS (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog).

Diolchodd y Cynghorydd Williams i'r Swyddogion a oedd yn gysylltiedig â'r gwahanol grwpiau, yn arbennig Donna Graves, Cynghorydd Cyswllt GACCCDC ar gyfer

AG/AC/CGM a CYSAG/CYS a Francesca Wright, yr Uwch Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr a Chlerc CYSAG/CYS, am eu harbenigedd a'u cefnogaeth i'r holl grwpiau y maent yn eu cefnogi. Roedd y Cynghorydd Williams hefyd yn edrych ymlaen at weld y mater yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

**PENDERFYNWYD –**

(1) Y dylid cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer CYSAG/CYS (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol) / CYS (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog) yn Atodiad 1 i'w gadarnhau a'i gyhoeddi.

(2) Y dylid cyfeirio'r adroddiad a'r atodiadau i'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant i'w hystyried gan gyfeirio unrhyw argymhellion yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried. Pe na bai'r Pwyllgor yn gwneud unrhyw argymhellion, byddai'r mater yn cael ei ystyried fel y cytunwyd.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Sicrhau bod Adroddiad Blynyddol wedi'i gadarnhau ar gyfer CYSAG/CYS yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r Cylch Gorchwyl (Cyfansoddiad Diwygiedig CYSAG/CYS ar gyfer CGM) a'r gofyniad i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith.

(2) Sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn cael cyfle i ystyried y gweithgareddau a'r cynnydd a wnaed gan CYSAG/CYS wrth gefnogi addysg ym Mro Morgannwg.

## **C270 ADRODDIAD MONITRO CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2023-2024 (YGCCR)(CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth i'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol (Atodiad A) a oedd yn ystyried y camau a gymerwyd gan y Cyngor i gefnogi pawb sy'n byw ac yn gweithio ym Mro Morgannwg.

Amlygodd y Cynghorydd Sivagnamam rywfaint o'r gwaith a wnaed gan y Cyngor, gan gynnwys y timau Cymunedau am Waith sydd wedi'u lleoli yn y Gyfarwyddiaeth Dysgu ac Ysgolion, prosiectau Quickstart ac Ymdrechu, datblygu gweithle cynhwysol a Rhwydwaith Anabledd ar gyfer staff a'r gwaith a wneir gan Ei Llais Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod cymaint o enghreifftiau da o sut roedd yr Awdurdod yn gweithio i wella cydraddoldeb, yn enwedig yr agenda gwrth-hiliaeth.

Dywedodd yr Arweinydd fod yna bersbectif statudol i'r adroddiad ond pwysleisiodd fod pwy bynnag yw unigolyn a pha bynnag heriau oedd yn cael eu hwynebu, mae pobl yn bwysig ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y Cyngor.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) Bod Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynnyddol 2023-2024 yn cael ei gymeradwyo fel y disgrifir yng nghorff yr adroddiad ac yn Atodiad A.
- (2) Y dylid cyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a chyfeirio unrhyw argymhellion yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried a'u cynnwys yn fersiwn terfynol yr Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynnyddol.

#### Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswydd adrodd o dan y dyletswyddau penodol i Gymru a pharhau i wneud cynnydd tuag at gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus tra'n sicrhau bod gwaith cydraddoldeb ar gael i'w graffu gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac eraill.
- (2) Galluogi'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried yr adroddiad a galluogi ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth i gwrdd â dyletswyddau statudol.